# Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Grantiau (Cymru) |
| Yn adrodd i: | Rheolwr Datblygu Cymru |
| Tîm: | Tîm Rhaglenni |
| Cyflog: | £36,000 - £38,000 pro rata (O.6 Cyfwerth ag Amser Llawn £21,600 - £22,800) gan gynnwys cyfraniadau pensiwn o 8% |
| Hyd y cytundeb: | Cyfnod penodol hyd at Fawrth 2028, gyda'r posibilrwydd o estyniad os bydd cyllid ar gael |
| Lleoliad: | Cymru (gweithio o adref, gyda theithio helaeth ledled Cymru a'r DU yn achlysurol) |

## 1 Diben cyffredinol y rôl

Cyfrannu tuag at gyflawni rhaglenni cynghori a grantiau Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yng Nghymru yn llwyddiannus: Defnyddio Treftadaeth (wedi'i ariannu gan Cadw, Llywodraeth Cymru). Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am reoli llwyth achosion o brosiectau yng Nghymru, gan gynghori ac arwain prosiectau wrth ganolbwyntio'n arbennig ar gamau cynnar cylch oes prosiect, sicrhau bod grantiau sy'n cael eu cynnig yn cael eu dyrannu yn unol â meini prawf y rhaglen, a chysylltu gyda phartneriaid allanol i gyflawni amcanion cyffredin fel sy'n briodol. Sylwch y bydd gofyn ichi deithio ledled y DU o bryd i'w gilydd yn y rôl hon.

## 2 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Penodol

1. Asesu ceisiadau am grantiau a pharatoi papurau achos, gan gynnwys cyflwyno argymhellion i wneuthurwyr penderfyniadau mewn cyfarfodydd Grantiau misol ac i Ymddiriedolwyr Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol mewn Paneli Grantiau chwarterol.
2. Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau i raglen grantiau Cymru, gan gynnwys rheoli ac asesu Datganiadau o Ddiddordeb.
3. Cynghori ac arwain prosiectau drwy'r camau datblygu prosiect cynharaf, gan gynnwys ceisiadau am gyllid i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, p'un ai bod hynny ar gyfer grantiau neu eu cyfeirio at y Tîm Buddsoddi am fenthyciadau pan fo'n berthnasol, ac o bosibl arianwyr addas eraill, a (gyda chefnogaeth Rheolwr Datblygu Cymru) cynghori ac arwain prosiectau drwy brosesau ailddatblygu cyfalaf.
4. Goruchwylio'r broses gweinyddu grantiau o'r cam ymgeisio hyd at y cam dyrannu, gyda'r prif gyfrifoldeb am gynnal cofnodion cronfa ddata cywir – gan gynnwys monitro dyddiadau dod i ben grantiau, llunio llythyrau cynigion a phrosesu hawliadau am daliadau.
5. Monitro llwyth achosion byw, gan ddarparu gwybodaeth reolaidd a phrydlon ar gynnydd y prosiectau.
6. Cefnogi gwaith gwerthuso mewnol ac allanol ar y rhaglen, mewn cyswllt â'r Swyddog Gwerthuso a Data, gan gynnwys casglu data a monitro effaith y rhaglen, y grantiau a'r cyngor.

7. Cysylltu gyda staff mewn mudiadau partner allweddol gan gynnwys Cadw, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Rhwydwaith Treftadaeth fel sy'n briodol i dargedu cymorth lle bo fwyaf angenrheidiol a sicrhau bod ymyrraeth y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn ychwanegu gwerth at weithgareddau'r partneriaid a rhaglenni perthnasol eraill.
8. Gweithredu fel Llysgennad yn hyrwyddo'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol drwy gyflwyno cyflwyniadau mewn cynadleddau a digwyddiadau sydd wedi'u trefnu gan fudiadau treftadaeth a mentrau cymdeithasol.
9. Llunio cynnwys rheolaidd ar gyfer gwefan a chyfryngau cymdeithasol y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol er mwyn hyrwyddo llwyddiannau'r prosiectau a'r cerrig milltir allweddol sydd wedi'u cyflawni, fel rhan o'r strategaeth cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol cyffredinol ar gyfer y rhaglen.
10. Cydweithio gyda staff y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, a phartneriaid allanol pan fo'n briodol, i gefnogi cyfathrebu a hyrwyddo'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol a'r prosiectau a gefnogir.
11. Cefnogi'r Tîm Buddsoddi yn cyfeirio ac yn creu cyfres o brosiectau sy'n barod ar gyfer buddsoddi yng Nghymru.
12. Annog dysgu rhwng cyfoedion drwy gysylltu grwpiau gyda'i gilydd, gan gynnwys drwy gydweithio gyda'r Rhwydwaith Treftadaeth lle bo hynny'n briodol.
13. Cyfrannu tuag at ddatblygu a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio yng nghyd-destun strategaeth y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, gan gynnwys sicrhau, cyflwyno tystiolaeth a hyrwyddo effaith cymdeithasol cymorth y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol ar gyfer adeiladau treftadaeth. Cynorthwyo gyda thasgau a gweithgareddau eraill yn ôl yr angen, yn enwedig y prosiectau a'r prosesau corfforaethol hynny sy'n cefnogi cyflawni gwaith y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn ehangach.

## Manyleb Person

### Hanfodol

- Profiad o asesu ceisiadau grant yn erbyn meini prawf penodol a blaenoriaethu argymhellion ariannu yn unol â hynny.
- Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar ddatblygu asedau (yn enwedig yn ymwneud ag adeiladau hanesyddol) ac adfywio dan arweiniad treftadaeth, a phrofiad o gefnogi prosiectau drwy'r broses hon.
- Sgiliau rheoli rhanddeiliaid ardderchog a hanes o waith ar y cyd â phartneriaid allanol.
- Profiad o weithio gyda neu ar gyfer mentrau cymdeithasol / mudiadau'r sector gwirfoddol.
- Diddordeb dangosadwy yn ac ymrwymiad i nod y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol – i hyrwyddo cadwraeth ac ail-ddefnydd cynaliadwy o adeiladau hanesyddol er budd cymunedau ledled y DU, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais economaidd.
- Sgiliau cyfathrebu eithriadol, yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Gallu dangosadwy gyda datrys problemau.
- Y gallu i weithio'n effeithiol ac yn hyblyg fel aelod o dîm i reoli'r portffolio o achosion grant i gyflawni deilliannau ar y cyd.

- Y gallu i drin a thrafod yn effeithiol a dylanwadu unigolion a mudiadau i gyflawni deilliant cadarnhaol.
- Sgiliau trefnu a phrosiect cryf a'r gallu i weithio'n effeithiol ar eich menter eich hun, pennu blaenoriaethau priodol, cyflawni mwy nac un dasg ar unwaith, a bodloni terfynau amser.
- Profiad o reoli cyllidebau.
- Parodrwydd i deithio i bob cwr o'r DU o bryd i'w gilydd yn unol â gofynion y swydd.

Dymunol

Gwybodaeth a/neu brofiad yn un neu fwy o'r canlynol:

- Cefndir mewn treftadaeth adeiledig.
- Dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol (yn ymwneud â threftadaeth a materion eraill), gan gynnwys mudiadau seilwaith a gwasanaethau cymorth, rhwydweithiau a'r hinsawdd ariannu.

Bydd gofyn i ddeilydd y swydd gynnal a datblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn cyflawni'r gwasanaethau i ac ar ran y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, gyda chymorth a chyfleoedd hyfforddiant priodol lle bo angen.